**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ariannu Allanol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 4 Gorffennaf 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C E Lloyd (Is-gadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| M C Child | E J King | A S Lewis |
| J A Raynor | M Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Carol Morgan | Rheolwr Datblygu Rhagor o Gartrefier |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |
| Peter Williams | Rheolwr Cynllunio a Galluogi Strategol |
| Gaynor Winsor | Cyfrifydd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J E Burtonshaw, R Francis-Davies, D H Hopkins ac R C Stewart

---

**52 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**53 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y Panel Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2018 fel cofnod cywir.

**54 Grant Tai Fforddiadwy a Chyllid Rhaglen Tai Arloesol.**

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu Rhagor o Gartrefi adroddiad er mwyn rhoi manylion ar Grant Tai Fforddiadwy a Rhaglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru i gefnogi cyflwyno 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd yng Nghymru.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo galluogi'r cyngor i dderbyn dyraniad y Grant Tai Fforddiadwy ar gyfer 18/19 a 19/20, yn amodol ar yr amodau a amlinellwyd ym mharagraffau 2.2 a 2.3 yr adroddiad, a chymeradwyo defnyddio'r grant ar gyfer y rhaglen datblygu drwy'r broses FPR7;
2) Cymeradwyo cyflwyno cais am arian i'r Rhaglen Tai Arloesol (IHP2) ar gyfer cam 2 cynllun Colliers Way.

## 55 Trosolwg o'r Rhaglen Amlinellol Strategol Gymeradwy ar gyfer Band B Rhaglenni Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad i hysbysu'r Panel Ariannu Allanol am y Rhaglen Amlinellol Strategol gymeradwy ar gyfer Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a phroffil arwyddol y gwariant a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno'r rhaglen.

Dywedodd y cadarnhawyd, o ganlyniad i drafodaethau â Llywodraeth Cymru, nad yw Ysgolion Ffydd yn gymwys am gynllun ar ffurf Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Dywedodd Aelod y Cabinet y bydd y panel yn cael ei hysbysu am gynnydd ar y mater hwn.

**Penderfynwyd** y dylai'r Panel Ariannu Allanol nodi cynnwys y rhaglen a phroffil disgwyliedig y gwariant a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno'r rhaglen.

## 56 Cynyddu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg - Cais am Grant Cyfalaf.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad i hysbysu'r Panel Ariannu Allanol am y cais am grant cyfalaf i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a phroffil arwyddol y gwariant a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno'r rhaglen.

**Penderfynwyd** y dylai'r Panel Ariannu Allanol nodi cynnwys y cais a phroffil disgwyliedig y gwariant a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno'r rhaglen.

## 57 Cynnig i gyflwyno cais i Lywodraeth Cymru i ariannu safle newydd i sipsiwn a theithwyr.

Cyflwynodd y Rheolwr Cynllunio a Galluogi Strategol adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cyflwyno cais am grant i Lywodraeth Cymru er mwyn adeiladu safle Sipsiwn a Theithwyr newydd.

**Penderfynwyd** cyflwyno cais am gyllid Grant Cyfalaf i Lywodraeth Cymru.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.13 pm

**Cadeirydd**